LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Mai-Mehefin 2023 Cyfrol 94 Rhif 3

**B**raint oedd cael cwmni prif weithredwr elusen Tir Dewi sef Gareth Davies gyda ni yn yr oedfa foreol ar y Sul cyntaf o Fehefin. Daeth atom yr holl ffordd o Roch yn Sir Benfro er mwyn derbyn siec o £3,600 tuag at yr elusen. Fel y gwyddoch hon oedd ein helusen enwebedig fel eglwys yn ystod 2022. Trwy amrywiol weithgareddau llwyddasom i godi'r cyfanswm hwn. Yr oedd naws arbennig yn yr oedfa ac fe siaradodd Gareth Davies yn deimladwy am waith pwysig Tir Dewi gyda'r sector amaethyddol yng Nghymru. Nod yr elusen yw bod yn gefn i ffermwyr a'u teuluoedd ynghanol argyfyngau economaidd, teuluol a phersonol gan gynnig clust i wrando a chyngor arbenigol. Cyflwynwyd y siec gan Eleri Williams gan mai hi ac Arwel awgrymodd ein bod yn cefnogi'r elusen hon ar ddechrau 2022. (Gellir gweld fideo o'r cyflwyniad ar ein sianel Youtube). Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Gill Lewis a'r pwyllgor codi arian am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac i chithau am eich haelioni.

---




**C**yflwynodd John Hayes ein cynllun newydd fel eglwys i fwydo'r digartref ar strydoedd y brifddinas. (Ar fore Sul 4/06) Cynllun newydd fydd hwn o dan yr hen enw Paradise Run. Diolchwn iddo am wirfoddoli i gydlynu'r gwaith hwn. Y mae'r angen yno o hyd ac y mae hwn yn ffordd inni ddangos cariad ymarferol Cristnogol tuag at y bregus yn ein cymuned. Ar y Sul cyntaf o fis Gorffennaf rydym am ail-ymuno gyda thim o eglwysi Paradise Run sy'n darparu bwyd i'r digartref gyda'r nos. (Ewch i dudalen 10)

## Gair gan y gweinidog

**H**offwn ddiolch i chi aelodau a ffrindiau Ebeneser am eich cefnogaeth a'ch gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. O'r diwedd rydym yn dechrau codi o niwl Covid-19 er bod llawer o heriau i'w goresgyn eto. Gwnaeth y pla hwnnw niwed mewn ffyrdd annisgwyl yn gymdeithasol ac yn eglwysig a dim ond nawr rydym yn gallu dechrau dadansoddi ac ymateb i hynny. Ond ymateb a wnawn ac ymateb rydym yn ei wneud gyda ffydd yn sofraniaeth y Duw bendigedig tros y cwbl sydd ac a fydd. Y mae ein bywydau trwy'r Iesu yn ddiogel yn llaw'r Arglwydd doed a ddelo. Nid ein gwaith ni yw gwaith Ebeneser ond gwaith Duw a'n braint yw cael gweithio yn ei winllan yn y rhan hon o Gymru.

**H**efyd, hoffwn ddiolch i chi fel eglwys am eich gofal trosom fel teulu, yr hyn a ddangoswyd unwaith eto yn eich penderfyniad ynglŷn â fy nghyflog yn y Cwrdd Eglwys diwethaf.Yn ogystal a hynny rwy'n wirioneddol ddiolchgar i chi am ganiatáu i mi gael cyfnod Sabothol am 3 mis fydd yn fy ngalluogi i wneud rhai pethau yr wyf wedi bwriadu ond wedi methu a'u gwneud tros y blynyddoedd. Bydd y cyfnod Sabothol yn fy rhyddhau i wneud mwy o ddarllen ac i feddwl sut y mae Duw am adeiladu ei deyrnas a'i bobl yn Ebeneser ac yng Nghymru i'r dyfodol. Rwy'n hyderus y bydd y cyfnod, os Duw a'i myn, yn fuddiol hefyd i Ebeneser.

Alun Mudd.

**Hysbysrwydd**

Er mwyn gwneud ein presenoldeb yn fwy amlwg y mae hysbysfwrdd newydd trawiadol wedi ei osod ar wal allanol capel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd. Diolch yn fawr iawn i weinidog ac aelodau'r eglwys Fethodistaidd am ganiatáu i ni wneud hyn. Rydym hefyd wedi cael 2 lanlen (popup) newydd gyda manylion am ein gweithgareddau. Gallwn ddefnyddio'r rhain mewn unrhyw leoliad ac men unrhyw ddigwyddiad. Yn ogystal, y mae baner newydd wedi ei chynllunio i'w gosod y tu allan i Ganolfan yr Eglwys Newydd.

**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o'r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o'r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o'r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.

# NEWYDDION

## Cleifion

Y mae nifer o'n haelodau wedi bod yn symol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cofiwn am ein haelodau hynaf sydd ddim wedi bod yn teimlo'n wych yn ddiweddar a hefyd y rhai sy'n derbyn triniaeth gyson dan law meddyg.

Y mae Annike Moseley yn gwella yn dilyn llawdriniaeth fawr yn Ysbyty'r Heath.

Mae Glesni Whettleton bellach yn Ysbyty Dewi Sant

Y mae Delor Wedlake wedi dychwelyd yn ôl i'w chartref yng Nghroescwrlwys.

Y mae Betty Pierce wedi dychwelyd yn ôl i'w fflat ym Mhenylan ac Hazel Doull yn ei chartref yn Rhiwbeina.

Cofiwch hefyd am Beti Wyn Davies sydd wedi symud i Southampton, ei rhif ffôn yw 01590 642580.

Cofiwn hefyd at Megan Williams, Melora Parry, Margaret Jones, Helen Hilling, sydd wedi bod yn teimlo ar eu gorau yn ddiweddar a hefyd ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi a chartrefi gofal, Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans, Margaret Jones. Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

## Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn gyda Hywel a Janette Jones yn eu colled. Bu farw mam Hywel yn ddiweddar yma yng Nghaerdydd.

## Penablwyddi

Pen-blwydd hapus iawn i Petra Bennett ar gyrraedd carreg filltir go arbennig yn ei hanes ar 1 Ebrill.

## Diolch

Diolch o galon i bawb am y cyfarchion pen-blwydd, y cardiau, blodau ac anrhegion, ac i ferched Bytholwyrdd am barti pen-blwydd cwbl annisgwyl a hyfryd yng ngwesty'r Park Plaza. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr. Diolch i'r Arglwydd am gael dathlu carreg filltir arbennig ac am gwlwm cyfeillgarwch teulu Ebeneser. Petra

**Ymadael**

Clywsom yn ddiweddar fod y Parch. Cathy Gale, gweinidog yr Eglwys Fethodistaidd yn gadael ar ddiwedd mis Mai eleni ac yn symud i wasanaethu ar gylchdaith Cyncoed y Methodistiaid. Cyn hynny bydd ar gyfnod Sabothol o 3 mis. Hoffem ddymuno yn dda iddi gan ddiolch am y croeso mawr a gawsom ganddi hi a'i haelodau yn yr Eglwys Newydd.

# Eglwysi yw Arch-Arwyr Datblygiad Rhyngwladol

*Gan Ruth Valerio, Cyfarwyddwr Eiriolaeth a Dylanwadu Rhyngwladol Tearfund. Cyfieithiad gan Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru*

Llun gan Tearfund

**Moyn rhoi i achosion elusennol tramor, ond ddim yn siŵr beth yw'r ffordd gorau? Buddsoddwch yn yr eglwys leol, dywed Ruth Valerio. Nhw yw arch-arwyr datblygiad rhyngwladol – a dyma'r ffigyrau sy'n profi hyn.**

Trwy weithio i Tearfund mae gennyf olwg freintiedig o'r eglwys Ryngwladol. Ond rhai wythnosau yn ôl, dangosodd astudiaeth pa mor fuddiol y gall eglwys fod i'w chymuned leol.

Mae'r Eglwys mewn man i ysbrydoli newid sy'n trawsnewid cymunedau ac yn grymuso pobl i ffynnu. Mae gan yr Eglwys y potensial i helpu pobl i gael eu rhyddhau o dlodi – tlodi ysbrydol a chorfforol. Yn rhyngwladol mae'r Eglwys yn rymus pan ddown at ddatblygiad rhyngwladol – mae'r Eglwys mewn man arbennig i daclo rhai o argyfyngau mwyaf y byd.

## Eglwys Ymarferol

Yn ddiweddar siaradodd ymchwilwyr â miloedd o bobl o Rwanda, Sierra Leone, Tanzania a Zimbabwe. Darganfyddwyd fod buddsoddi mewn eglwysi lleol yn ffordd gost-effeithiol o helpu cymunedau i godi eu hunain allan o dlodi.

Darganfyddwyd yr ymchwil yma fod pob £1 sy'n cal eu buddsoddi yn yr eglwys leol mewn gwledydd incwm isel yn dod â £28 o werth cymunedol. Dyna ganlyniad anhygoel! Yn enwedig wrth ystyried ein bod ni'n sôn am fywydau pobl yn rhai o ardaloedd tlotaf y byd.

## Eglwys sy'n llawn pwrpas

Trwy brosiectau sy'n cal eu rhedeg gan eglwysi lleol, mae'r adroddiad diweddar hefyd yn dangos trawsnewid ac effaith amlwg. Mae gan deuluoedd ddigon o fwyd i fwyta wedi iddyn nhw ddysgu technegau ffermio newydd. Mae plant yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd mae eu rhieni yn gallu ennill bywoliaeth. Mae cymunedau yn derbyn

hyfforddiant ar sut i redeg grwpiau cynilo, yn derbyn hyfforddiant ac addysg, fel eu bod yn gallu adeiladu canolfannau iechyd a chronfeydd dŵr glân.
Mae merched a gwragedd yn cael eu rhyddhau o orfod cerdded milltiroedd bob dydd i gasglu dŵr.
Mae yna newidiadau eraill hefyd, ond dal yr un mor bwysig.
Mae pobl yn y cymunedau ble mae'r eglwysi yn gweithio yn adrodd bod gan y cymunedau mwy o obaith a mwy o ddycnwch. Mae gwaith heddwch wedi adfer perthnasau o fewn teuluoedd a rhwng cymdogion sydd, mewn tro, wedi creu amgylchedd mwy diogel sydd yn well ar gyfer twf economaidd.
Mae'r dystiolaeth yn dangos fod yr effeithiau hyn yn bellgyrhaeddol ac yn cyffwrdd y gymdeithas ehangach. Gwelodd pobl na fu'n rhan uniongyrchol o raglen eglwys gwelliannau bron ymhob ffordd y gellid mesur llesiant.

## Eglwys Bwerus

Grym yr eglwys yw ei bod hi'n gallu ymateb mewn modd gwahanol iawn i sut mae cymorth dyngarol fel arfer yn gweithio.
Mae'r Eglwys, yn ei hanfod, yn fan o drawsnewidiad llwyr. Yn lle ymateb i'r symptomau yn unig – tlodi, newyn, gwrthdaro, diffyg adnoddau meddygol – trwy ddarparu bwyd neu ganolfannau iechyd er enghraifft, mae'r Eglwys yn gallu cynnig newid go iawn, llwyr a hir dymor. Grymusir pobl i adnabod atebion ymarferol eu hunain.
Canlyniad hyn yw newid materol a newid o ran gobaith – newid sy'n ysbrydoli eraill ac sy'n trawsnewid cymunedau mewn modd sy'n ddyrchafol, gynaliadwy ac sy'n adfer urddas. Newid sy'n dod â ddigon o fwyd. Canolfan iechyd newydd. Ysgol. Dulliau newydd o greu incwm.
Mae Beatrice yn fam i bedwar sy'n byw yn Rwanda. Trwy weithio â'i heglwys lleol mae'n dweud ei bod hi "wedi ei chyffwrdd gan y gwersi trawsnewidiol – fel asesu ein anghenion a photensial yr adnoddau sydd gennym yn ein cymuned. Rydyn ni'n sylweddoli fod cyd-weithio yn ein helpu. Mi wnes i ddechrau meddwl am gynllun i ddatblygu fy nheulu gan ymuno â grŵp hunan-gymorth. Dechreuom arbed arian pob wythnos mewn grŵp o 20 aelod. Roedd hi'n anodd i ddechrau ond roedd eraill yn fy annog."
Yn y pen draw, drwy log gan y grŵp hunangymorth yr oedd yn rhan ohono, dechreuodd Beatrice busnes bach ei hun yn gwerthu bwyd yn y farchnad. Galluogodd hyn hi i brynu gafr a buwch, a dechrau rhentu tir er mwyn plannu reis.
"Eleni, rwy'n disgwyl cynhaeaf braf. Rwy'n teimlo'n hyderus oherwydd dwi'n gallu cefnogi eraill ac rwy'n ddynes â pharch yn y gymuned ac o fewn fy nheulu. Mae gennym ni ddigon o fwyd i fwydo'n plant ac i dalu am

eu ffioedd ysgol. Dydyn ni ddim bellach yn gweithio i unrhyw un arall gan fod gennym busnes ein hunain. Gallwn gyfrannu pan fo angen i roi cymorth i bobl bregus. Mae gennyf gynllun i ddatblygu fy musnes ac ennill rhagor o arian yn y dyfodol. Mae gennyf deulu hapus."
Dyma trawsnewidiad llwyr i'r hunan a'r gymuned.

A'r eglwys sydd yn y canol, yn dod â'r newydd da.

*Gallwch gyfrannu at a chefnogi gwaith Tearfund trwy ymweld â'r tudalen https://www.justgiving.com/page/cycleclubdetearfund neu sganio'r côd QR yma.*

*Mae Cynan, a chefnogwyr eraill Tearfund wedi seiclo'r Carten100 gan godi arian tuag at waith CCT (Church and Community Transformation) Tearfund.*

---

## Pererindod

Y mae Pererindod Ebeneser yn cael ei gynnal ar ddydd Sul 25 Mehefin i Fro Morgannwg. Os ydych am ymuno gyda ni rhowch eich enw i Petra, Alison neu Alun. Gobeithio mai hwn fydd y cyntaf o lawer i'r dyfodol. O ganlyniad ni fydd oedfaon yng Nghanolfn yr Eglwys Newydd nac yng nghapel y Methodistiaid.

## Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd wythnos Cymorth Cristnogol ar 14 - 21 Mai er mwyn codi arian i helpu'r anghenus yn fyd-eang. Cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a chymerwyd rhan gan, Gill Lewis, Joy Dyer, Enfys Harding, Seren Jones, Petra Bennett a Lisa Williams. Canolbwyntiwyd y sylw eleni ar Malawi, gwlad yn ne-ddwyrain cyfandir Affrica ac ar brosiect oedd yn cael ei redeg gan wraig o'r enw Esther.

Gwnaed casgliad arbennig at waith Cymorth Cristnogol ac os yr hoffech chi gyfran gellir gwneud hynny yn uniongyrchol trwy gyfrif Banc Ebeneser. Mae'r manylion yn yr e-bost wythnosol.

## Agor y Llyfr

Newyddion da i dîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd yw ein bod wedi ein gwahodd i ddwy ysgol newydd i gyflwyno straeon Beiblaidd sef Ysgol Gwaelod y Garth ac Ysgol Berllan Deg. Diolch i'r criw ymroddedig am eu brwdfrydedd ac i Catrin Roberts ac Adam Colman am drefnu.

**G**wŷl flynyddol symudol ydi Llanw, sydd wedi ei chynnal mewn amrywiol leoliadau ers 2008, gan gynnwys Cei Newydd, Dinbych y Pysgod, Cricieth a Chydweli. Eleni, penderfynwyd dychwelyd i leoliad gwreiddiol yr ŵyl yng ngwersyll Llangrannog, wrth i Gristnogion ar hyd a lled y wlad ymgynnull i ddathlu'r atgyfodiad gyda'i gilydd.

Tua 60 oedd yn bresennol yn yr ŵyl gyntaf honno, ond bellach, mae wedi tyfu i fod yn ŵyl mae oddeutu 350 yn ei mwynhau. Cynhelir yn dilyn Sul y Pasg, ac mae modd aros ar leoliad am dair noson neu drefnu llety eich hunain a mynychu fel ymwelwyr dyddiol. O ystyried mai tîm bychan sy'n gyfrifol am drefnu'r ŵyl, a hynny heb nawdd unrhyw fudiad neu enwad, mae'r amrywiaeth a'r ddarpariaeth sydd ar gynnig yn eithriadol. Dyma roi blas i chi o'r hyn y gallech ei ddisgwyl yng ngŵyl Llanw:

## Dysgu

Eleni, cafwyd anerchiadau adeiladol a heriol gan Stuart Bell, Simeon Baker a Nan Powell-Davies, yn ogystal â Dathliad Pob Oed gydag Undeb y Gair ac anerchiad Beibl Byw gydag Arfon Jones. Yn ystod yr oedfaon, roedd nifer o gerddorion yn arwain addoliad egnïol a chyfoes, llawn moliant a llawenydd. Cafwyd naw seminar tra amrywiol, gan gynnwys seminar am ddistryw amgylcheddol gyda Cynan Llwyd a Mari Williams, yr antur o faethu a mabwysiadu gydag Angharad Clwyd a Siân Edwards, y comisiwn i gyfathrebu'r Efengyl gyda Steffan Jones, a chymdeithas yr Ysbryd Glân gyda Gareth a Lydia Power. Roedd modd i deuluoedd fynychu'r pregethau a'r seminarau hyn wrth i dîm diflino roi o'u doniau yn y sesiynau gwaith plant.

Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn yr holl oedfaon yn ogystal â rhai o'r seminarau, ac felly mae croeso brwd i ddysgwyr Cymraeg. Eleni, daeth teulu o Gaerdydd gyda ni i'r ŵyl am y tro cyntaf. Cafodd y ddau riant sy'n ddysgwyr foddhad o gyfarfod â Christnogion Cymraeg a dysgwyr eraill, cael y cyfle i addoli yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymarfer yr iaith wrth gwrs.

## Gweddi

Mae pwysigrwydd gweddi yn ganolog i weledigaeth Llanw, a thrwy gydol yr ŵyl, roedd cyfle i ddod i'r ystafell weddi i weddïo neu fyfyrio gan ddilyn themâu o Colosiaid. Roedd

criw bach yn gweddïo yn ystod yr oedfaon, ac ar ddiwedd pob oedfa, roedd tîm o bobl ar gael i weddïo gyda chi petaech yn dymuno. Yn ogystal, cynhaliwyd gweddi foreol dan arweiniad Alun Thomas a Deb Stammers. Ar noson olaf yr ŵyl, cafwyd pregeth rymus gan Stuart Bell am gyflwr ysbrydol ein gwlad a'r angen i rannu'r efengyl gyda'n cyd Gymry. Yn dilyn ei neges, bu oddeutu awr o weddïo ac addoli digymell gydag aelodau'r gynulleidfa wedi eu symud i ymateb i her yr hyn a rannwyd.

## Cymdeithas

Melys dros ben ydi'r ystod oedran sydd yng ngŵyl Llanw, ac eleni eto, cafwyd llawer o gyfleoedd i fwynhau cymdeithas. Gwnaed hynny wrth fwynhau prydau bwyd gyda'n gilydd (diolch i'r tîm diwyd yng nghegin Llangrannog!) a chyd fwynhau rhai o weithgareddau'r gwersyll, megis nofio, dringo, sgïo neu farchogaeth. Ar ôl pob oedfa wrth gwrs, roedd cyfle i gael sgwrs dros baned.

## Undod

Pob tro y byddaf yn mynychu gŵyl Llanw gyda'r teulu, dof i adnabod unigolion newydd, yn ogystal â gwerthfawrogi cwmni hen gyfeillion. Ac mae pwyslais cynhwysol yr ŵyl yn galonogol. Oherwydd o'r dechrau'n deg, gŵyl yw hon sy'n cymell undod rhwng amrywiol enwadau ac sy'n annog Cristnogion o eglwysi amrywiol i addoli gyda'i gilydd fel dilynwyr i Grist. Fel cenedl fechan, mae'r cyd-rodio hwn yn rhywbeth i'w ddathlu.

**Luned Aaron**

---

## Cyngerdd Melin Gruffydd

Roedd llond y capel o blant a theuluoedd yn y cyngerdd a drefnwyd rhwng Ysgol Melin Gruffydd ac eglwys Ebeneser ar 17eg Mai. Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn yr eisteddfodau lleol yn gymaint felly fel bod y bu i nifer o ddisgyblion gystadlu ymhellach yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Yn y cyngerdd cafwyd gwledd gerddorol gan y plant ac un llefarydd. Llywyddwyd y cwbl yn fedrus a brwdfrydig gan y pennaeth Gwyndaf Jones. Mynegwyd ein diolch mawr i'r plant a'r staff am eu gwaith caled a'u safon uchel gan y cyn-bennaeth Mair Robins. Dosbarthwyd taflenni am ein gweithgareddau plant i'r holl deuluoedd.




***(O dudalen 1.)***

***Dyma'r manylion yn gryno***

**Pryd?** Am 20.00 ar y Sul cyntaf o bob mis.

**Ble?** Yr un lle ag o'r blaen – tu allan M&S ar Heol Siarl.

**Cyfraniad Ebeneser:** 1 pryd cynnes i bawb; diod poeth neu ddiod oer (dŵr neu squash).

**Sut?**

- **Tîm coginio (3-4):** Paratoi pryd cynnes yng nghegin yr Eglwys Fethodistiaid ar y prynhawn / nos Sul cyn dosbarthu i'r di-gartref y noson honno. Pecynnu'r bwyd fydd yn hawdd eu dosbarthu.
- **Gyrrwr (1):** Gwirfoddolwr i gasglu'r bwyd o'r Eglwys a'i gludo i Heol Siarl erbyn 2000 ac ymuno â'r tîm dosbarthu.
- **Tîm dosbarthu (5-6):** I gyfarfod yn Heol y Siarl mewn da bryd i ddosbarthu'r bwyd a'r diodydd am 2000.

**Dyddiadau bwydo'r digartref**

- Gorffennaf 2, Awst 6, Medi 3, Hydref 1, Tachwedd 5, Rhagfyr 3

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i wirfoddoli yn achlysurol neu'n rheolaidd i'r project gysylltu gyda John Hayes: john_hayes1@hotmail.com / 07854453683.
Nid oes angen i wirfoddolwyr fynychu'r Eglwys o reidrwydd, fe allant fod yn gyfeillion sydd yn awyddus i ymgymryd â phroject dyngarol pwysig.

- Enwau, cyfeiriadau e-byst a rhifau cyswllt gwirfoddolwyr i John cyn gynted â phosibl.
- Cyfarfod 'zoom' ar nos Fawrth, Mehefin 13eg i roi trefn ar drefniadau nos Sul, Gorffennaf 2, 2023.

# Cyfnod Sabothol i'r gweinidog - Gwybodaeth

Yn y cwrdd eglwys a gynhaliwyd ar ddydd Sul 21 Mai fe bleidleisiodd y gynulleidfa o blaid argymhelliad y diaconiaid i roi cyfnod Sabothol o 3 mis i'r gweinidog – yn cynnwys misoedd Medi, Hydref a Thachwedd eleni - fydd yn ei ryddhau o'i holl ddyletswyddau. (*Ar wahân i gymryd angladdau.)

Gan nad oedd nifer ohonoch yn bresennol yn y Cwrdd Eglwys dyma rannu peth gwybodaeth bellach gyda chi. Argymhelliad Undeb yr Annibynwyr yw bod pob gweinidog i gael cyfnod Sabothol pob 7 mlynedd. Dyma ddywedir yng nghanllawiau'r Undeb am gyfnodau Sabothol gweinidogion-

"Pwrpas Cyfnod Sabothol yw rhoi cyfle i weinidogion gael seibiant o'u goruchwylion arferol, a'r 'bagad gofalon bugail'. Gallai seibiant o'r math hwn fod yn iechyd ac adnewyddiad i weinidog blinedig. Ond nid trefnu gwyliau yw ein bwriad, ond galluogi gweinidog i ddilyn rhyw drywydd neu'i gilydd a fydd yn dal perthynas â'i (gwaith ac yn fendithiol iddo(i). Bydd cyfnod felly yn debyg o gyfoethogi ei weinidogaeth ymhlith y bobl y mae'n eu gwasanaethu yn ogystal. Fe'i bwriadwyd i alluogi gweinidogion sydd wedi gwasanaethu am ddeng mlynedd a mwy i ymryddhau o'u gwaith am gyfnod o hyd at dri mis. A rhagwelir cynnig Cyfnod Sabothol bob 7 mlynedd wedi hynny."

Bellach mae Alun wedi bod yn y weinidogaeth ers 37 o flynyddoedd – 28 yn Ebeneser – ac yn y cyfnod hwnnw nid yw wedi cymryd yr un cyfnod Sabothol.

## Bwriad

Yn ystod y cyfnod hwn bwriad Alun yw ymchwilio i dri pheth yn benodol sef, strwythurau eglwysi, tyfu eglwysi a phlannu achosion newydd yn y Gymru Gymraeg. Wrth wneud hyn gall dynnu ar ei arbenigedd fel hanesydd cymdeithasegol a ddatblygodd wrth iddo baratoi ei draethawd PhD, "O'r Sect i'r Enwad. Datblygiad yr

Enwadau Ymneilltuol 1840 - 1870." Fel y gwyddoch y mae'n argyfwng ysbrydol yn ein plith ac nid yw dulliau traddodiadol o weithredu bellach yn effeithiol. Mae'r eglwysi yng Nghymru bellach yn cau ar raddfa frawychus ac mae'n rhaid inni yn weddigar ddatblygu strategaethau gwahanol.

Wrth gwrs fe fyddwn fel eglwys yn gwneud trefniadau ychwanegol mewn cydweithrediad â'r aelodaeth, y diaconiaid a'r swyddogion er mwyn gwarantu fod popeth yn ei le ar gyfer ein bywyd fel eglwys yn y cyfnod hwn.

**E**rbyn hyn rydym mewn argyfwng ysbrydol difrifol yn y Gymry Gymraeg a'r angen pennaf yw i ymestyn allan er mwyn ennill pobl newydd i ffydd yn Iesu fel Gwaredwr ac Arglwydd. Sail yr argyfwng yw anffyddiaeth. Ni allwn ddisgwyl i bobl sy'n credu dim i ymuno gyda ni. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gosod cenhadaeth leol fel blaenoriaeth gan gynnal gweithgareddau ennillgar llawn o'r newyddion da.

*Geiriau olaf yr Iesu wrth y disgyblion cyn iddo esgyn i'r nefoedd oedd y rhain, Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear." - Actau 1:8*

Yma, mae'n addo'r Ysbryd Glân, yr hwn a ddaeth ar Sul y Pentecost. Byddai'r Ysbryd yn rhoi nerth iddynt i wneud rhywbeth penodol, sef, bod yn **dystion i Iesu** yn lleol ac yn fyd-eang. Yn llyfr yr Actau dyma yn union sy'n digwydd. Mae'r Cristnogion trwy nerth yr Ysbryd, yn cyhoeddi achubiaeth trwy'r Iesu, gan annog pobl i gredu ac y mae miloedd yn dod i ffydd.

Yn hanes ein henwadau traddodiadol, yn annealladwy, wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, collwyd golwg ar y ffaith hollbwysig ein bod yn dystion i Iesu. Aeth yr eglwysi mor llwyddiannus am gyfnod fel eu bod wedi mynd i feddwl y gallent fyw ar eu bloneg. Collwyd golwg ar bwysigrwydd ennill pobl i Grist ac fe ddiflannodd y sgiliau i wneud hynny. Ond edrychwch ar ein cyflwr yn gyffredinol erbyn hyn. Daeth dydd y trai mawr, gyda channoedd o gapeli gwag, enwadau sy'n gwegian a chynulleidfaoedd didwyll a thriw i'r Arglwydd yn heneiddio. Dyma ble mae rhyddfrydiaeth wedi ein harwain. I'r twll presennol. Felly rhaid gweddïo am fendith yr Ysbryd Glân ac ail-ddeall ein dyletswydd i fod yn dystion i Iesu a dweud wrth eraill amdano.




# TIM KELLER
# 1950 - 2023

Trist oedd clywed am farwolaeth y gweinidog, yr awdur a'r ysgolhaig Cristnogol Tim Keller yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ychydig iawn o awduron Cristnogol cyfoes sydd wedi cael cymaint o ddylanwad yn fyd-eang. Rwyf tros y blynyddoedd wedi darllen peth wmbreth o'i lyfrau ac y mae ei bodfan o bregethau sef "Gospel for Life" wedi bod yn ffynhonell ysbrydoliaeth a llu o fendithion i mi.

## Arddull Arbennig

Roedd ei arddull wrth ysgrifennu a phregethu yn ddirodres, sylweddol a Beiblaidd. Yr oedd yn amlwg yn ddarllenwr mawr a gwelid ôl ei ysgolheictod a'i ddeallusrwydd yn ei gyfrolau swmpus. Diolch i'r drefn roedd ganddo hefyd hiwmor braf a ddeuai i'r amlwg yn fynych yn ei lyfrau a'i bregethau. Roedd yn gyfathrebwr heb ei ail oedd yn gallu cyflwyno materion Cristnogol mewn modd eglur. Ymgodymai yn fedrus gyda safbwyntiau ac agweddau o'r meddwl modern sy'n aml yn hunandybus ac yn ddifrïol o farn pobl nad ydynt yn cytuno â hwy. Daeth bychanu ffydd a dilorni Duw a'i air yn boblogaidd iawn, ond safai Keller yn fedrus gyda'i resymu Beiblaidd cadarn. Un peth nodedig amdano oedd nad oedd yn lladd ar bobl oedd o safbwynt gwahanol iddo, fel y mae rhai arweinyddion Cristnogol yn ei wneud. Yn hytrach roedd yn delio gyda'r mater oedd dan sylw gan fynegi ei safbwynt yn ddiamwys.

## Cefndir

Ganwyd Timothy James Keller yn Allentown, Pennsylvania, yn fab i Louise A. Keller (Clemente) a William B. Keller, oedd yn rheolwr hysbysebu ar y teledu. Graddiodd ym Mhrifysgol Bucknell (BA, 1972), Gordon-Conwell Theological Seminary (M.Div., 1975) a Westminster Theological Seminary, lle yr enillodd radd D.Min. ym 1981. Yn ystod ei blentyndod mynychai ei deulu eglwys Lutheraidd ac fe ddaeth yn Gristion tra'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Bucknell. Cyflogwyd ef am gyfnod gan yr InterVarsity, oedd yn gweithio ymhlith myfyrwyr. Ordeiniwyd ef gan y Presbyterian Church in America (PCA). Gwasanaethodd fel gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd West Hopewell yn Virginia am 9 mlynedd ac fel cyfarwyddwr plannu eglwysi'r

PCA. Darlithiodd hefyd yn y Westminster Theological Seminary yn Philadelphia.

**Redeemer -** Ym 1989 neilltuwyd Keller gan ei enwad i gychwyn y Redeemer Presbyterian Church yn Manhattan. Tyfodd yr eglwys o 50 o aelodau ar y cychwyn i 5,000 o addolwyr ar y Sul erbyn 2008. Mae'r eglwys yn gweld mai ei phrif faes cenhadol yw pobl ifanc broffesiynol ddinesig. Mae'n eglwys Americanaidd anarferol gan fod mwyafrif y gynulleidfa yn oedolion sengl. Mae'n gwrthod ochri gydag unrhyw blaid wleidyddol ond yn barod i wynebu a thrafod materion cyfoes heriol. Mae llawer o'r aelodau o dras Asiaidd ac yn gweithio mewn meysydd creadigol ac ariannol.
Gwrthodai Keller ddefnyddio'r label "efengylaidd" oherwydd ei gysylltiadau gwleidyddol a ffwndamentalaidd gan alw ei hun yn hytrach yn "uniongred." Credai fod troedigaeth bersonnol yn hanfodol ac yn awdurdod y Beibl. Ystyriai ei hun yn Galfinydd cymhedrol er fod rhai o'r traddodiad hwnnw yn ddigon parod i'w gondemnio am rai agweddau o'i eiddo.

**Awdur -** Yr oedd yn awdur toreithiog ac mae'n werth darllen ei gyfrolau ardderchog. Pan fyddaf yn dod ar draws pobl sy'n dangos diddordeb mewn Cristnogaeth byddaf yn rhoi copi iddynt o "The Reason For God: Belief in an age of scepticism." Y mae'r llyfr hwn yn delio yn rhesymegol gyda'r prif gwestiynau a'r amheuon gyfyd ym meddyliau pobl yr oes bresennol am Dduw, bywyd a ffydd. Os nad ydych wedi darllen y gyfrol, ewch ati yn ddiymdroi.




Cyfrolau eraill dylanwadol ganddo rwyf wedi eu darllen yw *Preaching: Communicating faith in an age of scepticism*; *Prayer: Experiencing Awe and Intimacy with God*; *Prodigal God*; *Generous Justice*; *Gospel in Life: Grace changes everything* a *Centre Church Europe.* Ac wrth gwrs ei esboniadau Beiblaidd, *King's Cross* (Esboniad ar Efengyl Marc); *The Prodigal Prophet,* (Llyfr Jona), *Romans 1-7* a *Galatians* o'r gyfres For You.
Hoffwn eich argymell i ddarllen llyfrau Keller oherwydd y bydd yn brofiad adeiladol a heriol. Diolchwn i'r Arglwydd amdano ac am ei gyfraniad mawr i dystiolaeth Iesu Grist yn fyd-eang a hefyd yma yng Nghymru.

**Alun Tudur**

# Angor Grange town

**M**ae cyfarfodydd Angor Grangetown yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn bendith a llawenydd. Mae Gwilym Jeffs, Cynan Llwyd a Carys Mair wedi bod yn arwain ac fe fuom yn edrych ar rai o'r Salmau o dan arweiniad Carys Mair, Cynan ac Arfon Jones. Cafwyd cyfweliad hefyd gyda Elliot ac Emma sy'n newydd ddyfodiaid. Pob yn ail wythnos fe gynhelir cwrdd gweddi ar nos Sul ac y mae hwn yn weithgarwch sydd yn hanfodol i'n cyflwr ysbrydol a'n cenhadaeth.
Gwych yw gweld fod nifer y rhai sy'n mynychu Angor wedi cynyddu ers Y Pasg gyda nifer o bobl ychwanegol wedi ymuno. Mae oddeutu 30 wedi bod yn bresennol yn cynnwys 10 o blant. Os ydych chi yn adnabod pobl sy'n byw yn ardal Grangetown, beth am i chi eu gwahodd i ddod i'r cyfarfodydd sydd am 4.30 ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis.
Mae Angor wedi cael baneri a popups newydd er mwyn gwneud y gwaith yn fwy gweladwy.

## Plant - Clwb Sêr

Er bod paratoadau yn cael eu gwneud pob bore Sul ar gyfer plant cynradd, ychydig iawn yw'r nifer sy'n dod.

Y mae hyn yn rhwystredig iawn gan fod gwersi yn cael eu paratoi ac athrawon ar gael. Hoffem eich annog fel aelodau i weddïo dros ein gwaith gyda theuluoedd a phlant ac i wahodd teuluoedd i ymuno gyda ni. Diolch i Catrin ac Ifan Roberts, Esyllt Jones a Carys Mair Jones am eu cymorth parod.

Dyma gynllun 'coaster' Ebeneser fydd yn cael ei ddosbarthu yn yr Eglwys Newydd. Bydd taflen hefyd yn cael ei pharatoi er mwyn ei dosbarthu ddiwedd Awst. Diolch i Huw Aaron, Arfon Jones a Gwilym Dafydd am ddarparu hwn.

# Yr Wythnos Fawr

**B**u nifer o weithgareddau dros gyfnod y Pasg er mwyn cofio, dathlu a diolch am farwolaeth yr Iesu trosom ar y groes a'i atgyfodiad bendigedig yn concro marwolaeth. Un o'r pethau a wnaethpwyd gennym oedd rhoi 120 o lyfrynnau'r Pasg Cymdeithas y Beibl yn rhodd i blant hynaf Ysgol Melin Gruffydd. Diolchwn i Rachel Jones am eu darparu ac am roi taflen am ein gwaith plant ym mhob un. Hefyd gwerthfawrogwn ein bod wedi cael caniatâd i wneud hyn gan Bennaeth yr ysgol. Yn dilyn Y Cylch ar 4ydd Ebrill a gynhaliwyd yng nghaffi Roundabout, yr Eglwys Newydd fe gafwyd oedfa fer yn neuadd y capel o dan arweiniad y gweinidog. Cawsom gyfle i wrando ar ddarlleniadau Beiblaidd am ddigwyddiadau'r Pasg a chanu tri emyn. Diolch i Helen Thomas am gyfeilio ac i Gill Lewis am ddarparu wyau Pasg.

## Gwener y Groglith

**R**oedd dydd Gwener y Groglith yn ddiwrnod prysur. Am 9.30 y bore fe gychwynnodd gorymdaith Cyngor Eglwysi'r Eglwys Newydd yn eglwys Teilo Sant. Daeth torf o ryw 150 ynghyd i gyd-gerdded a thystio i'n ffydd yn Iesu. Cynhaliwyd oedfa fer ym mhob addoldy cyn symud ymlaen at y nesaf. Ebeneser oedd yn gyfrifol am yr oedfa ddwyieithog yng nghapel y Tabernacl. Darllenwyd o'r ysgrythur gan Gwilym Dafydd, offrymwyd gweddi gan Catrin Roberts a chyflwynwyd myfyrdod byr gan Alun Tudur yn seiliedig ar emyn Pantycelyn, "Yn Eden cofiaf hynny byth..." Diolchwn iddynt am ein cynrychioli.

Yna, yn y prynhawn am 2.00 fe gynhaliwyd oedfa Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Dewis Sant, St Andrew's Place. Cynrychiolwyd Ebeneser gan Gwenda Lewis ac fe ddarllenodd hi o'r ysgrythur. Pregethwyd gan y Parch. Dyfrig Lloyd, Ficer Eglwys Dewi Sant.

**Y**na ar Sul y Pasg yn y ddwy oedfa fe gawsom gyfle i ddathlu'r atgyfodiad. Cychwynnodd Alun ar gyfer o bregethau yn dwyn y teitl, "Byw yng ngoleuni'r Atgyfodiad. 1. Amser i gredu, 2. Amser i ddeall 3. Amser i dyfu." Gellir gwrando ar y pregethau ar gyfrif Soundcloud Ebeneser. Diolch i Arwel ac Eleri Williams am y cyflenwad hael o wyau Pasg blasus ar ein cyfer .

# Cwrdd Pregethu

Ar y Sul olaf o fis Mawrth cawsom y fraint o gael croesawu Gwilym Tudur i agor y Gair inni yn ein Cwrdd Pregethu Blynyddol. Gohiriwyd y cyrddau hyn oherwydd y cynhaliwyd Sul y CyfUNdeb ar yr ail Sul o Fawrth. Hyfrydwch oedd cael ei gwmni ef ac Alex yn y ddwy oedfa. Yn y bore cododd ei destun o Efengyl Marc pennod 15 gan ofyn y cwestiwn agoriadol Pam fu Iesu farw? Cyflwynodd ei ateb yn eglur i'r gynulleidfa o dan y tri phen Tywyllwch, Llef a Llen. Yn oedfa'r prynhawn buom o dan ei arweiniad yn ystyried y groes o dan y ddau ben Crist a'r Groes a'r Cristion a'r Groes. Diolch o galon iddynt am ddod atom.

Y newyddion diweddaraf am Gwilym ac Alex Tudur yw y byddant yn gadael Aberystwyth ar ddiwedd mis Gorffennaf ac yn symud i fyw i Gaergrawnt. Y mae Gwilym wedi derbyn lle i wneud PhD yng ngholeg Clare Hall ac Alex wedi ei phenodi i swydd mewn ysgol yno. Dymunwn bob bendith iddynt yn ystod y bennod newydd yn eu hanes.

# Cwrdd Trafod

Cynhaliwyd dau gwrdd trafod arall ym mis Mawrth ac Ebrill er mwyn hyrwyddo'r prosiectau newydd yr ydym wedi eu mabwysiadu. Y mae ein hysbysebu digidol yn mynd yn ei flaen yn effeithiol o dan arweiniad Alice Jeffs a Carys Mair. Y mae coasters wedi eu cynhyrchu er mwyn eu dosbarthu yn yr Eglwys Newydd o dan arweiniad Huw Aaron, Arfon Jones a Gwilym Dafydd.

Rhan arall o'n gweledigaeth yw creu perthynas agosach gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bu Mair Robins ac Alun Tudur ar ymweliad ag Ysgol Melin Gruffydd er mwyn cael sgwrs gyda'r pennaeth. Yn sgîl y drafodaeth fuddiol honno penderfynwyd y gallem gydweithio ar rai pethau. Trefnwyd cyngerdd gydag Ysgol Melin Gruffydd ar y 17eg o Fai.

Mewn cyfarfod blaenorol o'r cwrdd Trefnu fe awgrymodd John Hayes y gallem fel eglwys gasglu sbwriel yn achlysurol yn yr Eglwys Newydd. Penderfynodd y gweinidog archebu Fest "High Viz" er mwyn ei gyflwyno fel rhodd i John. Gwaetha'r modd bu ychydig o gamddealltwriaeth rhwng Alun a'r argraffydd. Gofynnodd Alun mewn e-bost i'r cwmni, "Can you put the word Ebeneser, with an S on the back please." I weld beth oedd y canlyniad edrychwch ar y llun!

# Cwrdd Eglwys

Ar ddydd Sul 21 Mai fe gynhaliwyd cwrdd eglwys yn dilyn y ddwy oedfa. Trafodwyd dau beth sef 1. Adroddiad ariannol 2022 Ebeneser 2. Cyfnod Sabothol i'r gweinidog.

Cyn trafod y materion ariannol fe ddiolchodd Alun i Eilir Jones am ei waith manwl a chydwybodol o wythnos i wythnos.

Gwerthfawrogwn yn fawr iawn ei gyfraniad hanfodol i fywyd yr eglwys ac i'r rhai hynny sy'n ei gynorthwyo hefyd. Diolchwyd hefyd i Gwenda Lewis, Eilir Jones a Petra Bennett am eu cymorth wrth baratoi Adroddiad Blynyddol Ebeneser 2022 a'i fod bellach wedi ei bostio i'r holl aelodau.

Cyflwynwyd argymhelliad y diaconiaid i'r gynulleidfa fod Alun yn cael cyfnod Sabothol yn ystod Medi, Hydref a Thachwedd eleni fydd yn ei ryddhau o'i holl gyfrifoldebau fel gweinidog ar wahân i gynnal angladdau. Ceir mwy o fanylion ar dudalen 10 o'r rhifyn hwn am y cyfnod Sabothol.



## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Tudur Jones.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

## E-bost.

Os hoffech dderbyn e-bost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at ebenesercaerdydd1@gmail.com

**Recordiadau -**

Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ein help.

**Tîm Digidol -**

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal**

- Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2022. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gytfrwng Ebeneser.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

# Calendr

*Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD
*Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA
*Cynhelir **Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT
7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

# Mehefin

11 Dydd Sul. Oedfaon o dan arweiniad Alun. 4.30 Angor yng Nghanolfan Grange.
13 10.30-11.30 Y Cylch yn cyfarfod yng nghaffi'r Roundabout.
13 7.30y.h. Cyfarfod trefnu Paradise Run ar Zoom.
14 7.30 Cwrdd Chwarter Dwyrain Morgannwg ym Mhorthcawl.
18 Dydd Sul. Oedfaon o dan arweiniad Alun.
20 10.30 - 11.30 Y Cylch yn cyfarfod yn Y Roundabout.
25 Dydd Sul. Pererindod i Fro Morgannwg. 4.30 - Angor Grangetown yng Nghanolfan Reach.

**GORFFENNAF**

02 Dydd Sul. Oedfa'r bore o dan arweiniad Hannah Smethurst. Cymun yn y pnawn o dan arweiniad Alun.
09 Dydd Sul. Oedfa'r bore o dan arweiniad Rhys Hughes. Oedfa'r pnawn i'w drefnu. 4.30. Angor Grangetown.
16 Dydd Sul. Oedfaon o dan arweiniad Alun.
23 Dydd Sul. Oedfaon o dan arweiniad Alun. 4.30 Angor Grangetown yng Nghanolfan Reach.
30 Dydd Sul. Oedfaon o dan arweiniad Alun.

**AWST**

06 Oedfa yn y pnawn yn unig o dan arweiniad Ifan a Catrin Roberts
13 Oedfa yn y bore yn unig o dan arweiniad Gwilym Jeffs
20 Oedfa yn y pnawn yn unig o dan arweiniad Cynan Llwyd
27 Oedfaon y bore a'r pnawn o dan arweiniad John Roberts (Bwrw Golwg)

# CYNGERDD HAF

## ER BUDD APÊL DAEARGRYN TWRCI A SYRIA

**Nos Fercher, Gorffennaf 12fed, 2023 am 1900**
Yn Eglwys y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd (ger y cylchdro)

## CÔR CANNA

Arweinydd: Delyth Medi Lloyd
Cyfeilyddes: Kim Lloyd Jones

## PARISA FOULADI

## CYNAN LLWYD

(Arweinydd Tear Fund Cymru)

Tocynnau:
Oedolion: £10; Plant: £5
ar gael yn Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd

Yr holl gyfraniadau at apêl DEC daeargryn Twrci a Syria

Diolch i Eglwys Ebeneser, Yr Eglwys Newydd
am drefnu'r gyngerdd

Eglwys Ebeneser

DEC DISASTERS EMERGENCY COMMITTEE

tearfund